Senedd Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament
Legislation, Justice and Constitution Committee

Elin Jones AS
Llywydd, Cadeirydd Comisiwn y Senedd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Mai 2020

Annwyl Lywydd

Gweithrediad cyfarfodydd pwyllgor rhithwir

Rwy'n ysgrifennu ynglŷn â gweithrediad cyfarfodydd pwyllgor rhithwir sydd wedi bod cael eu cynnal o ganlyniad i bandemig y coronafeirws.

Yn gyntaf, ar ran y Pwyllgor, hoffwn fynegi ein diolch diffuant i holl staff y gwasanaeth TGCh a Darlledu am yr arbenigedd a'r gefnogaeth y maent wedi'u darparu i ganiatáu i'n cyfarfodydd pwyllgor rhithwir weithredu'n llyfn. Mae'r fframwaith technolegol a'r rhwydwaith cymorth y maent wedi'u creu wedi caniatáu inni barhau i ddwyn y llywodraeth i gyfrif yn ystod y cyfnod hynod heriol a digynsail hwn.

Yn ail, ac yn gysylltiedig â'r pwynt cyntaf, credwn y gallai fod rhinwedd mewn caniatáu i'r trefniadau hyn barhau yn y dyfodol mewn rhai amgylchiadau. O ystyried natur cylch gwaith a rôl ein Pwyllgor, mae yna adegau pan fydd ein cyfarfodydd yn canolbwyntio'n bennaf ar y gwaith o graffu ar is-ddeddfwriaeth. Ar yr adegau hyn, rydym weithiau'n canfod mai dim ond am gyfnod byr o amser y mae angen i ni gwrdd ar brynhawn Llun, a hynny heb dystion. Yn yr amgylchiadau hynny ac o ystyried pa mor fach yw'n pwyllgor, rydym o'r farn y gallai cyfarfodydd rhithwir, gyda'r Aelodau yn bresennol o bell, ganiatâu i'r Aelodau weithio'n fwy effeithlon. Rydym yn cydnabod y byddai angen meddwl yn llawer mwy trylwyr am y mater hwn. Fodd bynnag, rydym yn tynnu sylw ato nawr fel bod modd iddo fod yn rhan o unrhyw adolygiad o waith cyffredinol y Senedd mewn perthynas â'r pandemig, ond hefyd yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer y Chweched Senedd.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd.

Yn gywir,

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.